

Dyma dathliad. Gwlad Gwlad.



Dathlu Bwyd a Diod Cymru_Pecyn Cymorth
llyw.cymru/bwydadiodcymru
[@bwydadiodcymru](https://twitter.com/bwydadiodcymru)





Cymru. Taith fwyd.

Os ydych chi'n caru'r bwyd rydych chi'n ei werthu, dylech chi ymuno ag ymgyrch **#GwladGwlad**.

Pobl, tarddiad, blas a dylunio prydferth sydd wrth galon hanes cyfareddol bwyd a diod Cymru.

Helpwch ni i adrodd yr hanes hwn.





Cymru. I ddechrau.

Cynnwys.

01_	Elfennau sylfaenol. Beth yw hwn?	5
	Mae'n rhaid cael rhestr o awgrymiadau defnyddiol bob amser, felly dyma chi	10
02_	Gwneud y gorau o'r ymgyrch	11
03_	Llais uchel, llais clir	14
04_	Gwlad Gwlad	18
	Ryseitiau	20
	Delweddau prydferth	21
	Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi	25
	Ffeithiau difyr am fwyd	27

01_

Elfennau sylfaenol. Beth yw hwn?

Beth yw'r ymgyrch?

Os oeddech chi'n meddwl bod bwyd a diod Cymru'n dechrau gyda phice bach ac yn gorffen gyda chawl (er mor flacus yw'r rhain), meddyliwch eto.

Mae ymgyrch **#GwladGwlad** yn datgelu byd llawn blasau anhygoel, cynhwysion o'r radd flaenaf a phecynnu wedi'i ddylunio'n hyfryd.

Er ein bod yn enwog am fod yn wylaidd (hyd yn oed am ein galluoedd pêl-droed), rydyn ni'r Cymry bellach yn camu o'r cysgodion.

Gyda chynhyrchion sy'n gweiddi 'Bwytwch Fi' ac 'Yfwch Fi', mae ymgyrch **#GwladGwlad** yn ymffrostio gyda balchder am ryfeddodau bwyd Cymru.

Beth sydd mor arbennig am fwyd a diod o Gymru?

Mae ein glaswellt yn wyrdd, ein hafonydd yn ddwfn, ein mynyddoedd yn uchel a'n cwpwrdd bwyd naturiol yn llawn. Mae gan Gymru draddodiad hir a balch o gynhyrchu bwydydd a diodydd rhagorol, gyda digonedd o adnoddau naturiol a deunyddiau bwyd crai, a phwyslais unedig ar ddatblygu technolegau newydd i gynhyrchu bwyd.

Yn debyg i'r rhan fwyaf o bethau a wnawn ni yng Nghymru, mae bwyd a diod o Gymru wedi'u gwreiddio yn ein cymunedau, eu siapio gan ein tirwedd a'u mireinio gan ein diwylliant a'n hiaith. Boed yn gynnyrch crefft neu wedi'i anelu at y farchnad ehangach, mae cynhesrwydd y bobl i'w deimlo yn ansawdd ein cynhyrchion.

Caiff ein traddodiad ei ail-ddychmygu yng Nghymru gan genhedlaeth newydd ifanc, ddisglair, a chaiff tarddiad ei ddiogelu gan hen lawiau profiadol a fu'n ffermio'r caeau a phobi'r bara ers degawdau.



Pam ddylech chi gymryd rhan?

Rydyn ni'n gobeithio na fydd angen llawer o berswâd arnoch chi i gymryd rhan, ond os oes angen ysgogiad pellach, dyma ambell beth a allai eich argyhoeddi y gallai fod o fudd i chi:

- 1 Cynyddu nifer eich cwsmeriaid: mae cystadleuaeth ar-lein a'r stryd fawr yn gryfach nag erioed ac mae denu cwsmeriaid i'ch siop yn anoddach heddiw nag o'r blaen. Gallwch greu diddordeb ychwanegol gyda chynhyrchion newydd a chyffrous sy'n arddangos **#GwladGwlad**
- 2 Hybu gwerthiant: rydyn ni i gyd yn tueddu i ychwanegu ambell eitem i'n basged nad oedd ar y rhestr siopa. Gallwch hudo eich cwsmeriaid drwy gynnig dewis blasus o ddanteithion **#GwladGwlad** iddyn nhw a chynyddu eich gwerthiant yr un pryd.
- 3 Mae cwsmeriaid bob amser yn awyddus i roi cynnig ar rywbeth newydd, a beth allai fod yn well na chysylltu cynhyrchion newydd â dathlu cenedligrwydd a hunaniaeth?
- 4 Rhoi troed yn y dŵr: os ydych chi'n newydd i fyd bwyd a diod o Gymru, ystyriwch hyn fel arbrawf. Rydyn ni'n gwbl hyderus y cewch chi a'ch cwsmeriaid eich bachu ac y byddwch wrth eich bodd gyda'r cyfoeth y byddwch chi wedi'i ddarganfod, wrth dathlu'r gorau o **#GwladGwlad**
- 5 Does dim i'w golli: rhowch gynnig ar rywbeth newydd. Os ydych chi wedi'ch lleoli yng Nghymru bydd eich cwsmeriaid yn gwerthfawrogi eich bod wedi dewis dathlu Nawddsant y genedl ac os ydych chi'r tu allan i Gymru, bydd eich cwsmeriaid yn chwilfrydig i wybod mwy am – a blasu - pethau newydd. Mae'n ddigon tebygol y bydd eich cynhyrchion newydd yn deffro'r Cymro cudd sy'n llechu ym mynwes pob un ("Roedd fy hen dad-cu'n dod o Gymru")



Defnyddio pŵer marchnata #GwlaðGwlað

Mae ymchwil diweddar gan arbenigwyr yn dangos fod hyrwyddo hunaniaeth 'Cymreig' clir ar gynnyrch yn aml yn ychwanegu gwerth sylweddol i'n brandiau gwych.

Wyddoch chi? Yng Nghymru...

BYDDAI YN WELL
GAN DROS



o gwsmeriaid brynu
cynnyrch Cymreig




am weld mwy o fwyd a
diod Cymreig yn eu siopau



MAE
44%

yn barod i dalu mwy am
gynnyrch pe baent yn gwybod
ei fod yn dod o Gymru



yn credu ei bod yn bwysig
i gael cynnyrch Cymreig
ar fwydlenni bwyta

Ond nid ein cyfrinach fach ni yw hon, mae ansawdd bwyd o Gymru yn cael ei gydnabod tu draw i'n ffin. Yn ôl cwsmeriaid y DU...



MAE

56%

yn cydnabod fod gan Gymru enw da am gynhyrchu bwyd a diod gwych



weld
mwy o
gynnyrch
Cymreig



am gefnogi ein
cynhyrchwyr
bwyd a diod

byddai mwy o siopwyr
yn prynu cig oen sydd
wedi ei frandio fel
Cymreig yn hytrach
na Phrydeinig neu
heb ei frandio



Dyma'r hyn mae cwsmeriaid y DU yn credu
yw prif rinweddau brandiau Cymreig...

59%



yn eu
disgrifio
fel teimlo'n
'naturiol'



yn eu
hystyried
fel bod yn
arwydd o
'ansawdd
gwych'



yn credu
eu bod yn
blasu'n
anhengoel

Mae'n rhaid cael rhestr o awgrymiadau defnyddiol bob amser, felly dyma chi

- 1 Bach a phrydferth: gallwch gyrchu cynhyrchion crefft Cymreig gwych i wneud i'ch cwsmeriaid deimlo'n arbennig.
- 2 Meddyliwch am y deunydd pacio: ceir amrywiaeth cynyddol o fwyd a diod o Gymru lle caiff y blas gwych ei ddrychafu ymhellach gyda deunydd pacio hardd sydd wedi'i ddylunio'n grefftus.
- 3 Crëwch ryseitiai arbennig i gyd-fynd â'r cynhyrchion yn eich siop, ac os oes angen ysbrydoliaeth, edrychwch ar y llyfrgell o ryseitiai rydyn ni wedi'i gosod ar-lein: www.llyw.cymru/bwydadiodcymru
- 4 Dysgwch fwy am ein amrywiaeth anhygoel o gynnyrch bwyd a diod, drwy edrych ar y basdata cynhwysfawr cyntaf o gynhyrchwyr Cymreig ar wefan Arloesi Bwyd Cymru www.foodinnovation.wales/directory
- 5 Trefnwch sesiynau blasu yn y siop gan wahodd rhai o'ch cyflenwyr bwyd a diod arferol o Gymru atoch i gynnig blas a thrafod tarddiad y cynnyrch.
- 6 Os oes gennych chi dŷ bwyta neu gaffi yn eich siop, beth am gynnig bwydlen arbennig dros yr wythnos?
- 7 Trydarwch neu rhannwch ar-lein a lle bo'n bosib cofiwch ddefnyddio hashnod yr ymgyrch - **#Gwlad Gwlad / #ThisisWales**
- 8 Defnyddiwch yr amrywiaeth o ddeunydd ymgyrchu sydd wedi'i gynllunio'n barod ac sy'n rhan o'r pecyn hwn gan gynnwys logo **#GwladGwlad / #ThisisWales** a deunydd man gwerthu.
- 9 Hyrwyddo, hyrwyddo, hyrwyddo: defnyddiwch y wasg genedlaethol neu leol. Rydyn ni wedi drafftio templed o ddatganiad i'r wasg i chi ei addasu fel rhan o'r pecyn hwn.
- 10 Defnyddiwch ddetholiad o ddelweddau difyr lle bo'n bosib. Fel rhan o'r pecyn hwn i fanwerthwyr rydyn ni wedi cynnwys amrywiaeth fendigedig o ddelweddau i ysbrydoli a denu.




02_

Gwneud y gorau o'r ymgyrch.

Rydyn ni'n hynod o falch eich bod chi'n awyddus i'n helpu ni i ledaenu'r gair am ryfeddodau bwyd a diod o Gymru, ac i roi cychwyn arni - a gwneud bywyd ychydig yn haws i chi - rydyn ni wedi datblygu ddeunyddiau marchnata y gallwch chi eu lawrlwytho am ddim, a'u defnyddio fel rhan o **#GwladGwlad / #ThisisWales**

Dros y dudalen mae rhai esiamplau o'r deunyddiau gaiff eu defnyddio yn ystod yr ymgyrch. Os oes diddordeb gennych i lawrlwytho rhai ryseitiau traddodiadol Cymreig ewch i www.llyw.cymru/bwydadiodcymru neu gallwch gysylltu â ni ar bwyd-food@llyw.cymru i dderbyn amrywiaeth o dempledau dylunio, o ddeunydd pwynt gwerthu i faneri arddangos.



Baneri arddangos (saesneg)



Baneri arddangos (dwyieithog)



Posteri



POS



Cardiau rysetiau



Bagiau'r brand



Bunting

03_

Lais uchel, llais clir.



Beth yw neges yr ymgyrch?

Mae'n bryd i Gymru rannu cyfrinachau ei bwyd a'i diod gyda'r byd ac rydyn ni'n credu bod llawer yma i ysbrydoli, synnu a herio canfyddiadau.

Yng Nghymru, nid cael ei wneud mae bwyd, ond cael ei greu. Mae rhai o'n pobl orau ni'n gweithio yn y sector bwyd a diod yng Nghymru, a chaiff eu creadigaethau eu hysbrydoli gan dirwedd, hinsawdd, diwylliant, etifeddiaeth ac iaith. Iddyn nhw, nid gwrthrych yw bwyd, ond emosiwn.

Rydyn ni'n gofyn i bobl roi eu rhagfarn i'r naill ochr, a pharatoi eu tafod i dderbyn profiadau newydd, gyda chynhwysion o safon, sylw i fanylion ac angerdd am le yn elfennau safonol.

Dyma beth yw bwydydd da. Dyma beth yw diodydd da. Heb amheuaeth, dyma ein #GwladGwlad.

Beth yw bachyn yr ymgyrch?

Y bobl y tu ôl i'r cynhyrchion yw'r gwir arwyr, gyda straeon difyr i'w hadrodd. Ganddyn nhw mae'r angerdd, y rhuddin a'r ddawn, a nhw yw'r rhai sy'n gallu adrodd y stori'n fwyaf gonest ac yn fwyaf didwyll.

Dyna pam fod yr ymgyrch yn canolbwyntio arnyn nhw: pobl dda, onest, real sy'n gwneud bwyd da, gonest, real.

Pan fydd y cynnyrch a'r stori gystal â hyn, does dim angen enwogion i werthu'r cynnyrch gyda'u sbloet. Mae'r rheini sy'n gwybod am fwyd ym Mhrydain yn llawer tebycach o gael eu dylanwadu gan darddiad, cynhwysion o ansawdd, dylunio gwydch a'r bobl sydd y tu ôl iddo.



Defnyddio cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau fel rhan o'ch ymgyrch


Mae'r byd digidol yn trawsnewid y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu gyda'n gilydd. Mae'r ffordd rydyn ni'n cael gwybodaeth, yn rhannu gwybodaeth ac yn rhyngweithio gyda phobl a sefydliadau i gyd yn newid yn chwyldroadol. Mae dyddiau un ymgyrch i'r cyfryngau wedi hen fynd. Mae ein cynulleidfaoedd ar wasgar, yn dameidiog, ac yn rhannu eu sylw ar draws gwahanol gyfryngau, llwyfannau a dulliau creadigol. Ond mae hefyd yn gyfnod o gyfle rhagorol, lle gall syniad da, delwedd wych neu stori sy'n cael ei hadrodd yn dda gyrraedd cynulleidfa fyd-eang yn gyflym.

Ond os yw hyn i gyd yn swnio'n dipyn o her, gadewch i ni ei symleiddio at ddibenion **#GwladGwlad**

Yn y bôn, rydyn ni am daflu goleuni ar fwydydd a diodydd o Gymru, y bobl sy'n eu cynhyrchu a'r bobl sy'n eu prynu. Beth sydd ynddo, sut flas sydd arno, o ble mae'n dod.

Y cyfryngau print a darlledu.

Y newyddion da yw bod newyddiadurwyr yn bobl go iawn sy'n caru bwyd go iawn ac sy'n hoffi stori dda. Cynigiwch ddangos eich busnes iddyn nhw a rhannu eich angerdd dros eich gwaith, sut y dechreuodd y cyfan, ac i ble rydych chi'n mynd. Mae hwn hefyd yn gyfle i'r cyfryngau gael ffotograffau gwych. Isod ceir datganiad drafft i'r wasg i chi ei ddefnyddio neu ei addasu at y diben hwn:



<ENW'R CWMNI> yn ymuno â'r 'dathlu' ar Ddwydd Gŵyl Dewi

Ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni bydd <ENW'R CWMNI> yn arddangos rhai o gynhyrchion bwyd a diod mwyaf adnabyddus Cymru fel rhan o ymgyrch Gwlad Gwlad.

Mae Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru'n annog pawb i rannu eu hoffter o gynhyrchion Cymreig o ansawdd uchel ac ymuno yn ymgyrch #GwladGwlad.

Os oeddech chi'n meddwl bod bwyd a diod Cymru'n dechrau gyda phice bach ac yn gorffen gyda chawl (er mor flasus yw'r rhain), meddyliwch eto. Mae ymgyrch #GwladGwlad yn datgelu byd llawn blasau anhygoel, cynhwysion o'r radd flaenaf a phecynnau wedi'i ddylunio'n hyfryd. Gyda cynhyrchion sy'n gweiddi 'Bwytwch Fi' ac 'Yfwrch Fi', mae ymgyrch #GwladGwlad yn ymffrostio gyda balchder am ryfeddodau bwyd Cymru.

Byddwn ni'n nodi'r achlysur drwy <GWEITHGAREDD>.

Dywedodd <ENW>, o <ENW'R CWMNI>:

"Mae amrywiaeth rhyfeddol o gynhyrchion bwyd a diod yma yng Nghymru ac rydym ni am ddathlu hynny drwy gymryd rhan yn ymgyrch #GwladGwlad. Rydym ni'n cadw cynhyrchion o Gymru drwy gydol y flwyddyn ond mae Dydd Gŵyl Dewi yn uchafbwynt ardderchog.

"Dewch i gymryd rhan yn #GwladGwlad a dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth drwy alw heibio i <CWMNI> a phrynu cynhyrchion o Gymru i greu eich pryd arbennig eich hun ar Ddydd Gŵyl Dewi. Rwyf i'n edrych ymlaen at ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a #GwladGwlad."

Ymgyrch troswaol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi yw #GwladGwlad i ddathlu'r bwydydd a'r diodydd gorau o Gymru. Wrth sôn am yr ymgyrch dywedodd Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd y Diwydiant Bwyd a Diod:

"Mae genym ni draddodiad hir a balch o gynhyrchu bwydydd a diodydd rhagorol, gyda digonedd o adnoddau naturiol a deunyddiau bwyd crai, a phwyslais unedig ar ddatblygu technolegau newydd i gynhyrchu bwyd.

"Nod y pecyn cymorth yw cynorthwyo manwerthwyr gyda syniadau ac awgrymiadau am ffyrdd i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru yn eu siop, denu cwsmeriaid a chynyddu gwerthiant, yn y cyfnod yn arwain at Ddydd Gŵyl Dewi, a'r ŵyl ei hun. Bydd yn ei gwneud yn haws i'r manwerthwyr gael yr hyn sy'n gweddu orau i'w siop nhw wrth baratoi unwaith eto i arddangos y gorau o fwyd a diod Cymru."

Bwyd a diod o Gymru = tarddiad, angerdd a balchder. Prynwch, mwynhewch, hyrwyddwch.

Ewch i wefan Bwyd a Diod Cymru www.gov.wales/foodanddrinkwales am ragor o wybodaeth.

Y cyfryngau cymdeithasol.

Y newyddion da arall yw bod y rheini sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn bobl go iawn, sy'n hoffi bwyd go iawn ac yn caru stori dda. Mae hashnod swyddogol ein hymgyrch **#GwladGwlad / #ThisisWales** yn blaen ac yn syml ac rydyn ni'n eich annog chi i'w ddefnyddio'n eang. Mae lluniau a fideos yn sbarduno diddordeb, ac mae cyfeirio at flogiau ac erthyglau perthnasol hefyd yn ffordd dda i ddal naws yr ymgyrch.

Rydyn ni'n eithaf siŵr eich bod chi eisoes yn dipyn o ddewin ar y cyfryngau cymdeithasol, ond os yw amser yn brin, mae Twitter yn gyflym ac yn hawdd. Dyma ambell neges rydyn ni wedi'u paratoi'n barod:

- Edrych ymlaen at ddathlu **#GwladGwlad**
- Rwy'n falch o'r bwydydd a diodydd gwych o Gymru a byddaf i'n dathlu **#GwladGwlad**
- Bwyd a diod o Gymru = tarddiad, angerdd a balchder. Prynwch, mwynhewch, hyrwyddwch **#GwladGwlad**
- Y penwythnos hwn byddaf i'n bwyta ENW'R CYNNYRCH blasus **#GwladGwlad**
- Methu meddwl am anrheg i rywun arbennig? Beth am ddangos eich cariad gyda Bwyd a Diod o Gymru **#GwladGwlad**
- Bwyd da, gonest gan bobl dda, gonest. Profwch yr angerdd a dathlwch **#GwladGwlad**
- Mae stori wych i'w hadrodd am fwyd a diod o Gymru. Helpwch ni i'w rhannu **#GwladGwlad**

Cofiwch fod llun da'n adrodd cyfrolau, ac mae pobl Prydain yn caru lluniau o fwyd lawn cymaint â lluniau o gathod. Boed eich bwyd neu ddiod mewn pecyn, jar, seloffen, bag papur, ar lechen, ar fforc, yn y crochan neu ar y plât, snapiwch e, trydarwch e, **#GwladGwlad**



04_

Gwlad Gwlad.



Gwlad ddwyieithog yw Cymru, ac mae hyn yn gallu peri syndod i ymwelwyr sy'n aml yn cael eu cyfareddu gan y Gymraeg a'i defnydd i gyfathrebu bob dydd. O arwyddion ffyrdd i deledu a radio, ein hysgolion a sgysiau bob dydd ar strydoedd Caerdydd a thu hwnt, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r hyn ydym ni.

Rydyn ni'n gywir pan fyddwn yn honni bod barddoniaeth ein hiaith – un o ieithoedd hynaf Ewrop, sy'n llawer hŷn na'r llefnyn ifanc o iaith Saesneg – yn dylanwadu'n gryf ar ein cynnyrch bwyd a diod, a'i bod hefyd yn ffurfio ein hagwedd, ein gwleidyddiaeth, ein diwylliant a'n hymdeimlad o le.

Gall defnyddio'r Gymraeg i werthu cynhyrchion – boed yn y deunydd marchnata neu ar y pecyn – ychwanegu dimensiwn newydd ac unigryw a bodloni'r cwsmer sy'n chwilio am ymdeimlad o hunaniaeth fydd yn gwahaniaethu'r hyn sydd gennych chi i'w gynnig oddi wrth y gweddill.

Ac mae digon o gymorth ar gael i'r rheini nad ydyn nhw'n siaradwyr Cymraeg eu hunain, o fathodynau sy'n nodi pa staff sy'n siarad Cymraeg i gymorth gyda chyfieithu ac arweiniad ar ddefnyddio'r iaith. Yn wir, rydyn ni mor falch o'r iaith ac mor awyddus i'w rhannu mae gennym ni Gomisiynydd hyd yn oed: www.comisiynyddygyymraeg.cymru

Os ydych chi'n gwerthu yng Nghymru neu'n gwerthu cynnyrch Cymreig y tu allan i Gymru, mae bob amser yn beth da defnyddio'r Gymraeg. Dyma, wedi'r cyfan, yw iaith y nefoedd.

Dyma ambell air i gynorthwyo unrhyw un sy'n awyddus i ddechrau arni (er nad yw pob un yn nefolaidd!):

- Iechyd da / Cheers
- Pobi cartref / Home baking
- Blasau bendigedig / Wonderful flavours
- Ryseitiau gwych / Fantastic recipes
- Coginio cartref / Home cooking
- Danteithion blasus / Tasty treats
- Dod â dŵr i'r dannedd / Mouthwatering

Ryseitiaiu.

Ewch i www.llyw.cymru/bwydadiodcymru i lawrlwytho nifer o ryseitiau traddodiadol Cymreig neu gallwch gysylltu â ni'n uniongyrchol ar bwyd-food@llyw.cymru os hoffech eu hargraffu'n broffesiynol.

Gwlad Gwlad.



Cacen siocled Merlyn



Gwlad Gwlad.



Brithyll wedi ei lapio mewn Ham
Caerfyrddin a sbigoglys



Gwlad Gwlad.



Brecwast crensiog mêl,
cnau a sbelt



Gwlad Gwlad.



Cnau Melys a Myglyd



Gwlad Gwlad.



Cregyn bylchog a phys gyda
chrwst lemwn a delysg



Gwlad Gwlad.



Afal ac eirin gyda chnau
almon crimp



Gwlad Gwlad.



Tagliatelle gyda physgod a saws
tomato sbeislyd



Gwlad Gwlad.



'Hufen Iâ' (Parfait) mêl ac oren
gyda mwyar duon



Gwlad Gwlad.



Selsig cig carw gyda chennin
a chwrw



Delweddau prydfferth.

Gobeithio erbyn hyn ein bod ni wedi eich bachu chi a'ch bod yn llawn syniadau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Fel cymhelliant ychwanegol, rydyn ni wedi comisiynu ffotograffwyr dawnus i dynnu lluniau i'w defnyddio yn yr ymgyrch.

Isod ceir bwrdd naws y gallwch ei roi i'ch ffotograffydd, os ydych chi wedi trefnu un, i dynnu lluniau dros gyfnod yr ymgyrch:



Enwau Bwyd Gwarchodedig (PFN)



Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO)

Tarddiad

Cyflwynwyd Cynllun PFN yr UE i ddiogelu cynhyrchion bwyd a diod ar sail ddaearyddol neu rysâit. Ar hyn o bryd mae gan Gymru “deulu” o 14 o gynhyrchion â statws gwarchodedig.



Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI)

Treftadaeth

Mae holl gynhyrchion PFN Cymru yn gynhyrchion Cymreig eiconig ag iddyn nhw gyswllt cryf â'u tarddle, yn aml yn cyfuno dulliau cynhyrchu traddodiadol a sgiliau lleol sydd wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.



Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG)

Ansawdd

Caiff Cynllun PFN yr UE ei gydnabod yn fyd-eang yn gynllun “ansawdd”. Mae cynhyrchion o Gymru â statws PFN yn gynhyrchion unigryw ag enw da cadarn a gellir eu holrhain yn llawn. Mae'r cynhyrchion hyn yn 100% ddilys

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cynhyrchion o Gymru sydd â statws PFN ynghyd â gweithgareddau cydweithredol i hyrwyddo “teulu” PFN Cymru.



Beth yw gwerth enw?

Wel, gwerth uchel, a dweud y gwir. Er efallai fod Enwau Bwyd Gwarchodedig yr Undeb Ewropeaidd yn swnio braidd yn glogyrnaidd a diflas, mae'n golygu llawer iawn. Byddwch yn gwybod am y warchodaeth sydd ar gynhyrchion mwy enwog, fel Champagne a Ham Parma, ond a wyddech chi fod gan Gymru 15 o gynhyrchion gwarchodedig gan gynnwys Halen Môn a Chig Eidion o Gymru, gyda'u dilysrwydd yn cael ei warchod dan Gyfraith Ewrop?

Cyflwynwyd y cynllun yn 1993, a'i fwriad yw diogelu cynhyrchion bwyd a diod ar sail ddaearyddol neu rysâit, gan ystyried eu treftadaeth, cymeriad ac enw da unigryw.

Nid mater o stocio cynhyrchion gyda logo deniadol arnyn nhw yn unig yw hyn - mae gan Enwau Bwyd Gwarchodedig lu o fanteision. Mae defnyddwyr yn wirioneddol werthfawrogi cynhyrchion dan faner PFN - a'r dystiolaeth yw eu bod yn fwy parod i'w prynu, gan weld y nod fel un y gallan nhw ymddiried ynddo, sy'n dynodi ansawdd da, ac y byddan nhw'n barod i dalu mwy amdano. Yn gryno, dyma'r greal sanctaidd yn y byd manwerthu.

Does dim amheuaeth fod gwerth ychwanegol yn deillio o stocio'r cynhyrchion hyn a chyflwyno'r achos i'ch cwsmeriaid drwy godi ymwybyddiaeth o arwyddocâd y warchodaeth dan y cynllun sydd nid yn unig yn gosod ein cynhyrchion Cymreig gwych ar yr un lefel â Champagne a Ham Parma, ond sydd hefyd yn golygu eu bod yn cael eu cydnabod a'u mwynhau gan ddefnyddwyr ledled y byd.

Ond peidiwch â chymryd ein gair ni: mae deiliaid y dynodiad deniadol hwn yn telynegu am y fantais marchnata, twf busnes, ac adnabyddiaeth brand - y cyfan yn cyfrannu at lwyddiant eu cynnyrch.

"Mae'n ein gosod ni ar wahân i'n cystadleuwyr ac yn gweithredu fel safon ansawdd. Mae'n bwynt gwerthu unigryw i'n cynnyrch ni."

Alison Lea-Wilson, cyd-sylfaenydd Halen Môn

Dewch i gwrdd â 'theulu' PFN Cymru ...

- Caws Caerffili Traddodiadol o Gymru (PGI)
- Ham Caerfyrddin (PGI)
- Seidr Traddodiadol Cymreig (PGI) a Perai Traddodiadol Cymreig (PGI)
- Cregyn Gleision Conwy (PDO)
- Sewin Gorllewin Cymru wedi'i ddal o gwrwgl (PGI)
- Eogiaid y Gorllewin wedi'u dal o gwrwgl (PGI)
- Anglesey Sea Salt/Halen Môn (PDO)
- Porc Pedigri Cymreig a Fegir yn Draddodiadol (TSG)
- Bara Lawr Cymreig (PDO)
- Gwin Cymreig (PDO, PGI)
- Tatws Cynnar Penfro (PGI)
- PGI Cig Oen Cymru
- PGI Cig Eidion Cymru

Byd bwyd a diod o Gymru - mewn darnau bach blasus

Ydy, mae'n codi braw, on'd ydi? Y newyddion gwych yw bod Cymru wedi cael deffroad gastronomig yn ystod y degawd diwethaf; ond ble mae dechrau?

Yn ffodus, mae'r ateb gennym ni. Mewn ymateb i'r diwydiant bwyd a diod rhyfeddol o lwyddiannus yng Nghymru sy'n tyfu fwyfwy ac yn datblygu'n aruthrol, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau trefnu'r diddordebau gwahanol yn glystyrau, gan alluogi cynhyrchwyr penodol i rwydweithio a rhannu syniadau da, a helpu cyflenwyr a stocwyr i ddeall beth sydd ar gael.

Un o brif flaenoriaethau Rhwydweithiau Clwstwr Bwyd a Diod Cymru yw helpu'r diwydiant i 'fanteisio ar gyfleoedd masnachol' (mewn geiriau eraill 'gwerthu eu cynhyrchion i gwsmeriaid'). Dyma lle rydych chi'n dod yn rhan o'r darlun: y manwerthwr.

Ceir Rhwydweithiau Clwstwr ar gyfer pob math o arbenigeddau, o ddiodydd i fwydydd môr, bwydydd cain i nutri-Cymru, hyd yn oed clystyrau Prif Weithredwyr ac allforio. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i sicrhau cymaint o gynnydd â phosibl mewn twf economaidd, gan ddod â phobl o'r un anian at ei gilydd gydag amcan allweddol, sef helpu busnesau i dyfu.

Felly peidiwch â bod yn swil. Os ydych chi'n awyddus i gael cymorth ac angen gwybod sut i weithio gyda chyflenwyr, datblygu capasiti a gallu, a manteisio ar gyfleoedd masnachol (yr ymadrodd yna eto), gallai Rhwydweithiau Clwstwr fod yn iawn i chi.

Darllenwch fwy am y Rhwydwaith Clwstwr yn llyw.cymru/bwydadiodcymru



Bwyd a Diod Cymru
Rhwydwaith Clwstwr
Food & Drink Wales
Cluster Network



Bwyd, diod a blog: y cyfuniad perffaith

Mae'r blog yn ategu bwyd yn berffaith; y perlysiuyn delfrydol i gwblhau eich saig.

Mae blogiau'n gyfuniad o ddyddiadur a darn barn, gyda ffraethineb yn aml yn rhan o'r gymysgedd; cânt eu hyrwyddo dros y cyfryngau cymdeithasol a gall blogiau ddenu cynulleidfaoedd mawr. Mae blogwyr yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd, hyrwyddo syniadau da, a rhannu bwydydd blasus. Mae hyn yn golygu os gwnewch chi weini rhywbeth blasus iddyn nhw, maen nhw'n siŵr o frathu!

Pump awgrym defnyddiol i'ch helpu i ddechrau o hyd i'ch ffordd drwy fydd rhyfeddol blogio:

- 1 Ymchwil: Teipiwch 'Blogwyr Bwyd o Gymru' yn eich peiriant chwilio a chewch eich swyno gan fydd o fwydau, yfwr a siaradwyr, yn unedig yn eu hymgyrch i hyrwyddo bwyd. Mae hefyd yn hanfodol eich bod yn targedu'r blogiwr iawn sy'n ategu'r hyn sydd gennych i'w gynnig.
- 2 Llais y blogiwr: Gwnewch yn siŵr fod beth rydych chi'n ei ddweud yn cyd-fynd ag arddull a thôn y blogiwr, ynghyd â hyd y blogiadau ar gyfartaledd. Hefyd ceisiwch wneud cyswllt uniongyrchol â nhw.
- 3 Chwythwch eich utgorn eich hun! Hyrwyddwch y blog yn ddi-baid ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol ac anogwch eich hoff gwsmeriaid i ddarllen y blog a gadael sylwadau cadarnhaol.
- 4 Peidiwch â chyfyngu eich uchelgais i ochr yma Clawdd Offa. Mae pum deg chwech y cant o ddefnyddwyr yn y DU yn credu bod Cymru'n adnabyddus am gynhyrchu bwyd a diod gwych. Mae **#GwladGwlad** yn mynd â'r neges ymhell, ac mae pedwar ban byd ar agor i chi.
- 5 Yn olaf, yma yn Bwyd a Diod Cymru, rydym ni'n hoff iawn o restrau. Mae'r rhestr ddi-nod yn troi dryswch yn eglurder, ac anrhefn yn drefn. Rydyn ni'n credu y dylech ddechrau gyda'r rhain:
 - o Beth ydych chi'n ei hyrwyddo a'ch themâu bwyd: 'cig,' 'organig,' 'fferm y teulu,' 'llysieuol,' 'tarddiad lleol,' 'masnach deg.'
 - o Y blogiwr rydych chi wedi'i ganfod sy'n cyd-fynd orau â'r cynhyrchion rydych chi'n eu hyrwyddo.
 - o Lluniau y gallwch eu rhannu gyda'r blogwyr: arddangosiadau/standinau, delweddau brand, cynhwysion cynhyrchion, rysetiau, prynwyr, canmoliaeth, nodau ansawdd.
 - o Dyddiadau a thymhorau allweddol a'r cyswllt â'ch cynhyrchion.



Rhannu cariað Santes Dwynwen

Rydyn ni'r Cymry'n genedl gariadus, a does dim angen llawer o esgus arnon ni i gael cwtsh a mwynhau dipyn bach o ramant (mae'n wir). Diolch byth felly bod gennym ni ddau gyfle cariadus ar ffurf San Ffolant, a'i gyfnither Gymreig, Santes Dwynwen, y byddwn ni'n ei dathlu ar 25 Ionawr. Pa ffordd well i ddathlu bwyd a sbarduno rhamant na bwyd? Ac ar ddydd Santes Dwynwen, dim ond un ffordd sydd i'w ddweud: gyda bwyd a diod o Gymru. A da chi peidiwch ag anghofio dweud 'dwi'n dy garu di'.

- Ystyr Dwynwen yw 'un sy'n byw bywyd bendigaid'
- Cysegrodd Dwynwen ei hun i Dduw a sefydlodd leiandy yn Llanddwyn, Ynys Môn.
- Bu farw yn 465AD a daeth ffynnon Santes Dwynwen yn Llanddwyn yn gyrchfan i bererinion.
- Roedd yn un o bedair ar hugain (ie! Pedair ar hugain!) o ferched Brenin Brychan Brycheiniog ac yn ôl y sôn, hi oedd yr harddaf.
- Mae olion eglwys Santes Dwynwen i'w gweld hyd heddiw.

Pam foð 1 Mawrth mor bwysig?

Dewi, gwneuthurwr gwyrthiau hynafol (achosodd i'r ddaear godi dan ei draed), pererin hynod (teithiodd yr holl ffordd i Jerwsalem), a hen foi iawn - 'Dai' i'w ffrindiau does dim amheuaeth. Yng Nghymru, rydyn ni'n hoff o hanes. Rydyn ni'n mwynhau esgus i wisgo'n dillad gorau. Rydyn ni wrth ein bodd yn cael diwrnod arbennig. A dyna pam ar 1 Mawrth rydyn ni'n ymfalchïo yn ein gorfoledd gan fynd ati i addurno ein pennau â hetiau a bonedau ar thema cennin a chennin pedr.

- 1 1 Mawrth yw Dydd Gŵyl Dewi - y dyddiad y bu farw Dewi Sant yn 580
- 2 "Gwnewch y pethau bychain" mae'n debyg yw dywediad enwocaf Dewi Sant, a rhai o'r geiriau olaf a lefarodd cyn marw
- 3 Ceir llawer o straeon am wyrthiau Dewi Sant, gan gynnwys dod â bachgen marw'n ôl yn fyw ac adfer ei olwg i ddyn dall
- 4 Digwyddodd ei wyrth enwocaf yn Llanddewi Brefi, pan ddaeth torf fawr i'w glywed yn pregethu, yn ôl yr hanes. Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu ei weld, gosododd hances ar lawr a sefyll arni, cododd bryn bach o dan ei draed, a llwyddodd pawb gael golwg iawn arno
- 5 Honnir bod Dewi Sant wedi byw am dros 100 mlynedd.



Ffeithiau difyr am fwyd.

Gwynt teg yn yr hwyliau

Mae tyfu ŷd, malu blawd a gwneud bara yn rhan anhepgor o fywyd yng Nghymru ers miloedd o flynyddoedd. Dim rhyfedd felly mai 'Môn, Mam Cymru' oedd enw'r ynys hon, gyda'i holl felinau gwynt. Fel yr awgryma'r enw, roedd pobl yn arfer sôn bod digon o ŷd yno i fwydo Cymru gyfan.

Dod â'r maen i'r... bwrdd te

Ers talwm, byddai teisennau cri yn cael eu coginio dros faen poeth. Yn ddiweddarach dechreuwyd defnyddio gradell haearn: bellach dyma'r ffordd arferol i'w coginio. Serch hynny mae sawl cogydd yn defnyddio maen o hyd. Mae'n nifer o enwau ar y teisennau bach yma, gan gynnwys 'Cage Bach', 'Pice ar y Maen', a 'Teisen Lechfaen'. Yn Saesneg fe'u gelwir yn 'Griddle Cakes', 'Welsh Tea Cakes' a 'Welsh Miner Cakes'.

Mynd gyda'r llif

Mae sawl afon yng Nghymru wedi ei henwi ar ôl aelodau o deulu'r moch – Hwch, Twrch, Aman, Banw, Machno a Soch. Mae afonydd yn twrio neu'n torri trwy'r tir, fel mochyn sy'n chwilio am fes, gwreiddiau a madarch. Bydd mochyn hefyd yn mwynhau rholio yn y mwd – nid am ei fod yn anifail brwnt ond oherwydd bod haen o fwd yn ei gadw'n oer braf, ac yn ei amddiffyn rhag pelydrau'r haul.

Crème de la crème Cymru

Mae tir ffermio Cymru wedi bod yn gartref i fridiau gwartheg cynhenid ers miloedd o flynyddoedd. Yn anaml iawn y byddai llwythau Celtaidd yn bwtsiera eu hanifeiliaid er mwyn eu bwyta – dim ond adeg rhyw wledd arbennig. Byddai nifer y gyrr yn dangos cyfoeth a statws y perchennog. Mae'r gair am wartheg yn ne Cymru, sef 'da', yn dal i gael ei ddefnyddio yno – mae'n golygu 'cyfoeth' neu 'eiddo'.

Hen ddafad yng ngnu oen bach

I rai, cig mollt (gwryw o rywogaeth y ddafad wedi'i ddisbaddu) yw cig dafad ac i eraill, cig hen famog yw e. Ta waeth, caiff y cig gorau (yn enwedig o frîd y Ddafad Fynydd Gymreig) ei gynhyrchu o fis Hydref i fis Mawrth ar ôl haf hir o bori. 'Mae coes cig dafad Cymru'n well na choes cig dafad unrhyw wlad arall,' George Borrow, Wild Wales.

Pysgod yn ymbincio

Dim ond yn y môr y mae sewin yn bwydo, a bydd lliw ei gnawd yn cael ei effeithio gan y pethau mae'n ei fwyta. Gall y rhain gynnwys berdys, sy'n golygu bod sewin yn lliw pinc golau amlwg, gyda chyhyrau tyn, a blas pysgodlyd, ffres.

Llond llwyriad fach arall, os oes rhaid...

Roedd gan y Celtiaid lawer o ffydd mewn halen. O ran coginio a chadw bwyd, roedd halen yn dipyn o wyrth, ac roedd defnydd trwm arno. Yn ogystal â bod yn fodd i halltu cig, roedd yn gynhwysyn hanfodol wrth gynhyrchu menyn Cymreig, ac yn ffordd ymarferol o ychwanegu braster a blasau cyfoethog at luniaeth y Celtiaid, a fyddai'n ddigon llwm fel arall. Mae menyn Cymreig go iawn yn dal i gynnwys digon o halen i beri dychryn i lawfeddyg y galon. Ond mae'n hynod o flasus!

Caws nefolaidd

Mae'r syniad bod caws pob (neu 'Welsh Rarebit' yn Saesneg) yn fwyd amheuthun gan y Cymry yn bod ers yr Oesoedd Canol. Yn 'The Hundred Merry Tales' (1526) mae Duw yn cael llond bol ar y Cymry a'u cyfeddach yn y nefoedd ac yn mynnu bod Sant Pedr yn mynd i'r afael â'r mater. Mae'r sant yn ymateb trwy weiddi 'Welsh rarebit!' – a dyma'r holl Gymry yn ei heglu hi allan o'r nefoedd. Mae Sant Pedr yn cloi'r pyrth ar eu holau – ac yn ôl yr hanes dyna pam nad oes 'na Gymry yn y nefoedd.

Am wybod rhagor?

bwyd-food@llyw.cymru

llyw.cymru/bwydadiodcymru

[@bwydadiodcymru](https://www.instagram.com/bwydadiodcymru)

WG35489 © Hawlfraint y Goron 2018

